# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Iau, 9 Mai 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
A.L. Fox a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel Sylwedydd:** Cynghorwr J.K. Howell

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu
A. Morgan, Ymarferydd Iechyd yr Amglychedd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 yb - 12.50 yp**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE GERDDI ABERGLASNEY, LLANGATHEN, CAERFYRDDIN, SA32 8QH.

Gadawodd yr Is-bwyllgor Neuadd y Sir, Caerfyrddin, am 10.05 a.m. ac ailymgynnull am 10:30 a.m. yng Ngerddi Aberglasne, Llangathen er mwyn gweld yr eiddo a chael cyfle i archwilio'r cyfleusterau. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 11:40 a.m. i ystyried y cais.

Rhoddodd y Cyfreithiwr wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod. Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne am drwydded safle mewn perthynas â'r safle uchod i ganiatáu'r canlynol:

- Cyflenwi Alcohol, Cerddoriaeth Fyw, a Cherddoriaeth a Recordiwyd o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.
- Lluniaeth hwyrnos o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 23:00 a 00:00.
- Oriau agor safonol o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 10:00 a 18:00.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A – copi o'r cais.
- Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu.
- Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys.
- Atodiad D – sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd.
- Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Â chytundeb yr holl bartïon, dosbarthwyd copïau o ddogfennau ychwanegol i'r Is-bwyllgor a oedd yn cynnwys newidiadau a gynigiwyd gan yr Awdurdodau Cyfrifol i'r amod a argymhellwyd (rhif 5 a nodir ar dudalen D2) a chynllun yn nodi lleoliad eiddo'r gwrthwynebwyr mewn perthynas â'r safle yn y cais.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad B i'r adroddiad ac yn yr Amodau Trwydded Arfaethedig Drafft y cyfeirir atynt uchod.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad D i'r adroddiad ac yn yr Amodau Trwydded Arfaethedig Drafft y cyfeirir atynt uchod.  Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi ymgeisydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Wedyn, cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan Mr Davies a Miss Davies a oedd yn mynegi pryderon ac yn gwrthwynebu caniatáu'r drwydded safle am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Atodiad E.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd. Wedyn bu i'r ymgeiswyr ymateb i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Ar hynny

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded diwygiedig yr oedd yr awdurdodau cyfrifol wedi eu cynnig ac yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt.**

**Y RHESYMAU:**

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed, yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd.  Roedd hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref, a'r rheiny a oedd wedi'u cyfeirio at ei sylw gan y partïon eraill.

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Ar hyn o bryd, roedd gan Erddi Aberglasne drwydded safle.

2. Nid oedd hanes o gwynion yn cael eu cyflwyno i'r awdurdodau cyfrifol ynghylch y safle.
3. Nid oedd unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu caniatáu'r cais.
4. Roedd yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau trwydded ychwanegol yr oedd yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd wedi eu cynnig.
5. Roedd y rhai oedd yn ymweld â'r gerddi wedi cael effaith niweidiol ar Mr Davies a Miss Davies o ran gyrru i'w safle a methu â chau gatiau fferm a hefyd o ran sŵn o ddigwyddiadau ar y safle.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Ni allai'r Is-bwyllgor roi ystyriaeth briodol i faterion o ran angen a'r alcohol sydd ar gael ar safleoedd cyfagos eraill.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r sylwadau a gyflwynwyd gan Mr Davies a Miss Davies ac, yn benodol, a oedd y materion yr oeddent yn cwyno amdanynt yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus ac, os felly, a fyddai caniatáu trwydded yn tanseilio'r amcan trwyddedu o ran atal niwsans cyhoeddus.

Yn dilyn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ger ei fron, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y materion y cwynwyd amdanynt yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus o bosib, ond roeddent hefyd yn fodlon bod yr amodau trwydded arfaethedig yn ddigonol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn unol â hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y dylai ganiatáu'r cais, yn unol â'r amodau trwydded a gynigiwyd gan yr awdurdodau cyfrifol ac a dderbyniwyd gan yr ymgeiswyr a bod y camau gweithredu hyn yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac yn gymesur â'r materion a godwyd gan y partïon.

Argymhellodd yr Is-bwyllgor i Ymddiriedolwyr y Gerddi, er mwyn sicrhau cysylltiadau da â'r gymuned leol (ac yn benodol Mr Davies a Miss Davies) eu bod, yn ogystal ag amodau'r drwydded, hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i leihau effaith eu gweithgareddau.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**